PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD IAU, 19 EBRILL 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Keith Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Gordon, Ahmed, Asghar Ali, Driscoll, Hudson, Jones-Pritchard, Lay a/ac Keith Parry |

76 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cynghorwyr Goddard, Congreve and Jacobson

77 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2018 fel cofnod cywir.

78 : DATGAN BUDDIANNAU

| CYNGHORYDD | EITEM | RHESWM |
|---|---|---|
| Ashgar Ali | 18/00074/MNR | Yn berchen ar dŷ yn yr un stryd. |
| Lay | 18/00089/MNJ | Siaradodd fel Cynghorydd Ward |

79 : DEISEBAU

Rhif y cais: 18/00074/MNR, 105 Romilly Road, Treganna
Rhif y cais: 18/000/MJR, Tir ger Harrison Drive, Trowbridge

80 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor yr atodlen o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. PENDERFYNWYD: Y dylai’r Pwyllgor benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo ac yn ôl yr argymhellion a nodir yn adroddiadau Cyfarwyddwr Gweithrediadau’r Ddinas yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniad yn unol ag Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990).

# CEISIADAU A GANIATEIR.

18/00074/MJR – GRANGETOWN

23 DINAS STREET
Newid defnydd o 3 fflat i 1 fflat a thŷ amlfeddiannaeth gyda 6 ystafell wely ynghyd ag addasiadau allanol.

# CEISIADAU A GANIATEIR WRTH WEITHREDU RHWYMEDIGAETH GYNLLUNIO YN UNOL AG ADRAN 106 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990:

17/02832/MJR – PLASNEWYDD

116-118 HEOL Y PLWCA
Dymchwel uned A3 bresennol a fflatiau preswyl uwchben uned fasnachol A3 arfaethedig ar y llawr isaf a 5 clwstwr preswyl i fyfyrwyr (30 gwely) ar 4 llawr gyda chyfleusterau cyffredinol ar y llawr isaf.

Yn amodol ar amod ychwanegol a fydd yn nodi:

‘Bydd y ffenestri ym mhwll y staer ar y talcen gogledd-orllewin arfaethedig ar yr ail, trydydd a phedwerydd llawr yn ffenestri nad ydynt yn agor yn is na 1.8m metr uwchben lefel y llawr mewnol gyda gwydr na ellir gweld trwyddo.

18/00089/MJR - TROWBRIDGE

TIR YN HARRISON DRIVE
Cynnig i adeiladu 21 o unedau tai fforddiadwy (gan gynnwys 18 o fflatiau ag 1 ystafell wely, 2 fflat â 2 ystafell wely ac 1 fflat hygyrch ag un ystafell wely) a gwaith cysylltiedig.

Yn amodol ar amod ychwanegol a fydd yn nodi:

‘Cyn dechrau ar unrhyw ddatblygiad caiff Cynllun Rheoli Adeiladu ei gyflwyno a'i gymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y cynlluniau’n cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, fanylion llwybrau traffig adeiladu (a fydd yn cynnwys darpariaeth resymol ar gyfer osgoi gwrthdaro ag Ysgol Meadowlane) ac amserau symudiadau cerbydau trwm (a fydd yn cynnwys darpariaeth resymol ar gyfer osgoi gwrthdaro ag amserau cyrraedd a gadael Ysgol Meadowlane).

# CEISIADAU WEDI’U GOHIRIO

17/03026/MJR – CATHAYS

TIR AR GYFFORDD HEOL Y GOGLEDD A MAINDY ROAD
Dymchwel yr adeiladau presennol yn gyfan gwbl ac ail-ddatblygu’r tir i greu llety i fyfyrwyr (tua 3.644M2) a fydd yn cynnwys stiwdios a chlystyrau, ardaloedd amwynder cyffredin, mannau amwynder agored allanol, 1 uned A1/A3 a gwaith priffordd a thirlunio cysylltiedig.

RHESWM: Er mwyn cynnal ymweliad safle â'r lleoliad hwn.

18/00034/MNR – TREGANNA

105 ROMILLY ROAD

Newid defnydd o annedd 3 ystafell wely i Dŷ Amlfeddiannaeth â 7 ystafell wely a chodi estyniad un llawr ac addasu atig dormer.

RHESWM: Er mwyn i swyddogion baratoi drafft o'r rhesymau dros wrthod y cais yn seiliedig ar KP5 (Safon y Dyluniad/Cynllun) a H5 (i), (iii) a (iv) o'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig.

81 : CEISIADAU A BENNIR GAN BWERAU DIRPRWYEDIG

Nodwyd – Mawrth 2018

82 : EITEM(AU) BRYS (OS UNRHYW)

Dim

83 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - 9 MAI 2018